CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 18, 2023

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth**
**Nos Fawrth, Gorffennaf 18, 2023 am 7:30 o'r gloch.**

**www.cyngorllanfachreth.cymru**

**Presennol** Cynghorwyr Meurig Ashton (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Karen G. Goswell, Geraint Evans, Emlyn Roberts. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Gerallt Griffith.

**3. Datgan diddordeb.**

Eitem 7.a. Roedd Rhun Prys Jones yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio.

Eitem 5. Eitem 9.b.4. Roedd Meurig Ashton yn datgan diddordeb ynglŷn â Rheolau Ariannol.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 20, 2023.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 20, 2023.**

Eitem 6.d. Llythyr (20/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gydag Agenda a Ffurflen Archebu Cynhadledd Arfer Arloesol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 9.b.5. Mae angen mabwysiadwyd a chymeradwywyd Cynllun Hyfforddiant yr aelodau. Anfonwyd copi o'r Cynllun Hyfforddiant i'r aelodau.

Cafodd y Cynllun Hyfforddiant i'r Aelodau ei fabwysiadu a'i chymeradwyo. Penderfynwyd rhoi y Cynllun ar ein gwefan.

Eitem 9.b.4. Anfonwyd llythyr (16/6/2023) i Un Llais Cymru yn gofyn am eu sylwadau ar yr eitem.

Cafwyd llythyr ateb (19/6/2023) gan Un Llais Cymru yn awgrymu:

1. i ni ddiwygio y gwerthoedd yn ein Rheolau Ariannol neu
2. i'r aelodau ystyried ddim mynd allan i dendro oherwydd mae'r contractwr yn parhau i gwblhau gwaith i safon uchel ac mae'r Cyngor yn cael gwerth da o'u harian.

Mae angen rhoi penderfyniad 1. neu 2. yn ein cofnodion.

Er hynny, maent yn awgrymu i ni gael tri phris y tro nesaf fel mae'n cael ei roi yn y Rheolau Ariannol. Os dim ond un pris bydd ar gael maent yn awgrymu i'r aelodau ei dderbyn, gyda chyngor ar safon y gwasanaeth mae'r contractwr yn ei roi.

I ddatrys y mater, sef Eitem 11.1.g. o'r Rheoliadau Ariannol, penderfynwyd newid yr eitem

o - Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £3,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn trefnu cael 3 dyfynbris (disgrifiadau wedi'u prisio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi); pan mae eu gwerth yn llai na £1,000 ac yn fwy na £100 bydd y Clerc yn ceisio cael 3 amcanbris. Fel arall, bydd Rheoliad 10.3 uchod yn berthnasol.

i - Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £3,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn trefnu cael hyd at dri dyfynbris (disgrifiadau wedi'u prisio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi); pan mae eu gwerth yn llai na £1,000 ac yn fwy na £100 bydd y Clerc yn ceisio cael mwy nag unamcanbris. Fel arall, bydd Rheoliad 10.3 uchod yn berthnasol.

Fel hyn, fyddai'r Clerc ddim wedi'i glymu i gael yr union rif. Cyn belled â bod y Clerc wedi trïo cael mwy nag un pris, fyddai methu â'u cael ddim yn rhwystro'r Cyngor rhag symud ymlaen. (Sylwi mai 'dyfynbris' (=quotation) ydy'r cyntaf ac 'amcanbris' (=estimate) ydy'r ail.)

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/6/2023) oddi wrth Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata 20mya, Llywodraeth Cymru yn gwahodd ni i gyfarfod rhithwir 'Paratoi ar gyfer 20mya' ar Microsoft Teams dydd Llun 3 Gorffennaf 13:00 – 14:30. Mae manylion y cysylltiad yn y llythyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (23/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi dyddiadau hyfforddiant am fis Mehefin a Gorffennaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr ateb (27/6/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (gweler eitem 12.a. Cofnodion cyfarfod Mai16, 2023) yn rhoi gwybod:

1. Bydd tyfiant sydd ar arwydd ffordd yn rhybuddio am droadau dwbl wrth Coed y Moch Lodge yn cael ei glirio.

2. Bydd canghennhau coed sydd yn tyfu i'r ffordd wrth Gelli a Pwll y Gele yn cael eu tocio.

3. Mae Peiriannydd yn ymchwilio i berchnogaeth y pontydd sydd ar yr hen reilffordd o Drws y Nant. Mae yn credu fod rhan fwyaf o'r pontydd ddim yn gyfrifoldeb y Cyngor.

ch. Llythyr (29/6/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwyned yn rhoi gwybod am waith bydd yn cael ei wneud yn y gymuned ym mis Gorffennaf, 2023. Y gwaith bydd gosod postyn cyfeirbwyntio ac arwyddion, a gwaith draenio a thorri tyffiant ar lwybr ceffyl rhif 12, Hafod Frith – Tyddyn Mawr.

d. Llythyr (4/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am y Grant Dichonoldeb newydd Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau draenio trefol cynaliadwy ar raddfa fach neu gynlluniau draenio cynaliadwy sef SuDS.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (6/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi ghwybod am eu Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher, Gorffennaf 12. Bydd y cyfarfod ar Zoom (mae'r llythyr yn cynnwys y linc). Y siaradwr fydd MAGNOX, Trawsfynydd.

Amgáu mae Agenda i Cyfarfod Blynyddol ac Agenda i Cyfarfod Arferol. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredin Pwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd ar nos Fercher 18 Ebrill 2023 gan ddefnyddio ZOOM.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (10/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn atgoffa am y cyfarfod a'r her mae cynghorau dref a chymuned yn wynebu.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (6/7/2023) oddi wrth MAGNOX, Trawsfynydd gyda gwahoddiad i sesiynau harddangosfa ar gamau nesaf i ddatgomisiynu Safle Trawsfynydd. Bydd y sesiynau yn ardal Trawsfynydd ac yn llyfrgelloedd cyhoeddus yr ardal.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (13/7/2023) oddi wrth Tom Haynes, Coedwig Genedlaethol i Gymru, Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno ei hun i wella a chreu coetiroedd o bob math a chreu coedwigoedd i ymuno â CCG. Bydd arian ar gael drwy Grant Buddsoddi Mewn Coetirwedd (TWIG).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau (14/7/7/2023).

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/L249D. Adeiladu estyniad cefn a ports ffrynt Meithrinfa Seren Fach, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (29/6/2023).

b. Cais cynllunio NP5/54/465. Gosod 12 panel solar (4.92kw) ar edrychiad deheuol y to. 35 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (12/7/2023).

c. Cais cynllunio NP5/54/136F. Gosod 19 panel solar (7.88kw) i'r rhan o'r to sy'n gwynebu'r de, ac ehangu 1 ffenestr to presennol i'r to sy'n gwynebu'r gogledd
Gwel y Garn, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

**8. Materion Ariannol**

a. Derbyniwyd £323.20 (29/6/2023) ad-daliad TAW gan HMRC am y cyfnod 1/11/2019 – 31/03/2023.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/6/2023: £1,150.85.
Balans yn y banc ar 29/6/2023: £9,518.04. (29/6/2022: £8,899.89).

**9. Archwilio**

a. Llythyr (11/7/2023) oddi wrth Archwilio Cymru. Maent angen:
1. copiau o lythyrau gan aelodau sy'n penderfynu gwrthod y lwfans.
2. tystiolaeth bod datganiad o daliadau wedi ei anfon i IRPW.

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr ateb (19/6/2023) oddi wrth Cysylltedd Trafnidiaeth a Digidol, Llywodraeth Cymru gydag ateb i'r llythyr ynglŷn â chyflymder ffordd A470 rhwng y Bwlch a Gwanas. Mae CTD yn rhoi gwybod i gysylltu â GanBwyll sy'n gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder. Nid yw arwyddion traffig yn cael eu darparu ar gyfer mynediad preifat i breswylfeydd domestig oddi ar y ffordd. Mae'r ffordd sy'n arwain at Gwanas yn ffordd sirol ac felly Cyngor Gwynedd bydd yn ymdrin â'r mater o gael arwydd 'Mynediad Cudd' ond yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru. Ynglŷn â chael caniatau i gael llinellau gwyn ddwbl mae rhaid bodloni prawf cyn eu caniatau. Bydd mwy o drafodaeth ar y mater.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (11/7/2023) oddi wrth Pennaeth Economic a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gynllun y Cyngor i roi mynediad am ddim i Faes yr Eisteddfod i deuluoedd incwm isel.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Mae'r neuaddau yn rhoi cais am grantiau.

d. Openreach yn gwneud gwaith yn Brithdir i gael internet.

dd. Mae Cyngor Gwynedd yn ail trefnu gwasanaeth bysus.

e. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am archwilio Pwll y Gele.

**11. Materion yr Aelodau**

a. Penderfynwyd anfon llythyr i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn diolch am y gwaith o agor cwterydd o bont Hermon i Abergeirw.

---------

Llofnod: Dyddiad: